SHELTER CYMRU

# ‘YMDDYGIAD ANNERBYNIOL’ neu ddiffyg dealltwriaeth?

Archwiliad o sut mae’r pwerau presennol i roi terfyn ar ddyletswyddau digartrefedd yn effeithio ar bobl yng Nghymru a'r cyfle y mae'r Bil Digartrefedd a Dyrannu Tai Cymdeithasol yn ei gynnig.

gan Jonathan Clode



# CYFLWYNIAD

Mae'r bil Digartrefedd a Dyrannu Tai Cymdeithasol newydd sy'n cael ei ystyried ar hyn o bryd yn y Senedd yn cynnwys mesur lle gellir dod â dyletswyddau i ymgeiswyr i ben. Bydd yr amgylchiadau hyn yn cynnwys "trais, ymddygiad bygythiol ac achosi difrod difrifol i lety."

**Mae Llywodraeth Cymru wedi dweud yn glir bod y bil yn rhan hanfodol o gyflawni ei huchelgais, sef 'sicrhau bod gwasanaethau digartrefedd yn ystyriol o drawma' ledled Cymru, ond mae cynnwys y prawf ymddygiad annerbyniol ar ei ffurf bresennol, a fyddai'n arwain at dynnu holl gefnogaeth awdurdod lleol o achos rhywun, yn mynd yn gwbl groes i'r uchelgais hon.**

Mae'r ymdrechion ar draws y sector tai a digartrefedd i addysgu a hyfforddi staff i wybod beth yw gwir ystyr bod yn ystyriol o drawma wedi methu, a phrin iawn yw'r gwasanaethau sy'n addasu'r wybodaeth hon yn briodol er mwyn darparu cefnogaeth ystyrlon i bobl. Ymddengys fod rhai gwasanaethau digartrefedd wedi troi'r cysyniad o fod yn ystyriol o drawma i fod yn ddim mwy na label y gellir ei gymhwyso'n rhwydd i unrhyw beth. Nid yw'r gydnabyddiaeth, sydd i'w gweld gan amlaf ar bapur, fod pobl sy'n ddigartref wedi dioddef rhyw fath o drawma yn cael ei dilyn wrth ymarfer. Nid oes gwarant o empathi neu garedigrwydd tuag at unigolion a all fod o dan amgylchiadau unigryw - pobl a allai fod yn mynd trwy gyfnod gwaethaf eu bywyd.

Trwy gynnwys prawf ymddygiad annerbyniol eang yn y bil, ni roddir cyfle i rywun ddeall bod dioddef digartrefedd yn y fan a'r lle yn brofiad sydd ynddo'i hun yn drawma parhaus a fydd yn anochel yn effeithio ar sut mae rhywun yn ymddwyn. Mae'n brofiad sy'n creu ansicrwydd ac ofn, yn rhannol am fod pobl yn anghyfarwydd â system sy'n gallu bod yn anodd ei llywio.

Wrth gwrs, mae'n anodd i awdurdodau lleol reoli'r amgylchiadau hyn - maen nhw'n gweithio trwy nifer o achosion, yn brin o adnoddau ac yn aml wedi'u llethu. Ond sut deimlad yw digartrefedd? Wel, profiad sy'n debygol o lethu rhywun hefyd mwy na thebyg, ac ar adegau, gall hyn arwain at y math o ymddygiad y mae'r bil newydd yn ei ystyried yn 'annerbyniol'. Ar achlysuron fel hyn, mae angen i ni ddangos hyd yn oed mwy o dosturi a bod yn barod i weld y sawl sydd y tu ôl i'r ymddygiad.

**A yw hyn yn golygu rhoi staff mewn perygl? Na, a ddylai hynny ddim digwydd byth, ond yn rhy aml mae ymatebion i ymddygiad o'r fath yn dod yn ffordd gyfleus o dynnu cefnogaeth yn ôl.**

I raddau, mae Llywodraeth Cymru wedi cydnabod hyn ac wedi dweud yn glir na ddylid dod â dyletswydd i ben pan fo amgylchiadau arbennig sy'n gallu esbonio ymddygiad. Ond yn Shelter Cymru, dydyn ni ddim yn meddwl y bydd hynny'n mynd yn ddigon pell.

Os nad yw Llywodraeth Cymru yn fodlon tynnu'r cymal ymddygiad annerbyniol, dylai wneud y canlynol o leiaf:

- Dileu'r gallu i roi ddod â ddyletswydd i ben ar sail difrod i eiddo.
- Sicrhau amddiffyniadau rhag dod â dyletswydd i ben mewn achosion o gamdriniaeth.
- Sicrhau mai dim ond os na all awdurdod lleol ddarparu gwasanaethau a sicrhau diogelwch staff y dylid dod â dyletswydd i ben oherwydd ymddygiad.

Daw'r straeon canlynol o brofiadau go iawn pobl a gefnogir gan Shelter Cymru a Chyngor Ffoaduriaid Cymru. Mae'r enwau wedi'u newid ond mae'r dyfyniadau yn gyfieithiadau o eiriau uniongyrchol y bobl a gafodd eu heffeithio. Mae pob stori yn cynnwys enghraifft lle mae 'ymddygiad annerbyniol' honedig wedi arwain at fygwth neu ddileu'r ddyletswydd digartrefedd bresennol.

> "O'N I'N TEIMLO NAD OEDD DIM RO'N I'N EI DDWEUD YN DDIGON, FEL PETAI NEB YN YR AWDURDOD LLEOL YN FY NGHREDU I.



## HANNAH

Cafodd Hannah ei rhoi mewn llety dros dro gyda'i merch bum mlwydd oed am ddwy flynedd.

Roedd mewn fflat gyda dwy ystafell wely lle'r oedd problemau lleithder a llwydni. Dros amser dirywiodd cyflwr y fflat, a dywedodd Hannah fod rhaid iddi gysgu ar ei soffa gan fod y llwydni wedi difetha ei matres yn llwyr.

Roedd yn poeni am iechyd ei merch, felly aeth i aros gyda'i chyn-bartner a chysylltodd â'r gwasanaethau cymdeithasol. Cysylltodd y rheiny â'r awdurdod lleol i geisio mynd i'r afael â'r problemau yn y llety dros dro a'r perygl i iechyd Hannah a'i merch.

Dywedodd yr awdurdod lleol ei fod yn chwilio am gartref parhaol iddyn nhw, ond y byddai angen iddyn nhw aros yn y llety am y tro, oherwydd trwy beidio â byw ynddo, roedd perygl y byddai'r awdurdod yn dod â'r ddyletswydd tuag atynt i ben.

Aeth pethau'n ormod i Hannah, a cheisiodd gymryd ei bywyd ei hun felly cafodd ei derbyn i'r ysbyty.

Rhoddodd y gwasanaethau cymdeithasol wybod i dîm tai yr awdurdod lleol. Gofynnodd y rheiny am dystiolaeth bod Hannah wedi bod yn yr ysbyty. Dywedon nhw fod posibilrwydd y byddai'r awdurdod yn dod â'i ddyletswydd digartrefedd i ben heb dystiolaeth o'r fath oherwydd diffyg cyfathrebu ac ymgysylltu â'r tîm tai.

Yn y pen draw, gyda chefnogaeth Shelter Cymru a'r gwasanaethau cymdeithasol, llwyddodd Hannah i ddatrys y problemau gyda'r awdurdod lleol ac, ers hynny, mae wedi cael ei rhoi mewn cartref parhaol.

# TAREQ

Mae Tareq yn ffoadur o Syria a'i iaith gyntaf yw Arabeg. Mae ganddo broblemau iechyd meddwl gan gynnwys diagnosis Anhwylder Straen Ôl-drawmatig. Mae wedi mynegi y gall hyn olygu ei fod yn cael trafferth i reoli ysfa.

Roedd yn byw mewn llety dros dro ac aeth i ymweld â ffrind y tu allan i ardal ei awdurdod lleol, heb sylweddoli ei fod i fod i roi gwybod i'r cyngor os oedd yn gadael y ddinas. O ganlyniad, daethpwyd â'r ddyletswydd i ben pan nad oedd modd iddyn nhw gael gafael arno yn ei lety dros dro.

Pan ddychwelodd a darganfod ei fod wedi colli ei le yn y llety dros dro, aeth Tareq i holi am opsiynau llety, yn anhapus iawn nad oedd ganddo unman i aros. Roedd yn bryderus ac yn ddryslyd. Cafodd hyn ei adlewyrchu yn y ffordd y siaradodd â'r staff yn yr adran dai ac, yn y pen draw, cafodd yr heddlu eu galw a chafodd ei hebrwng o'r adeilad.

Pan oedd ei staff cymorth wedi ceisio ei helpu, fe sylwon nhw ar yr un ymddygiad ag yr oedd staff yr adran dai wedi ei gofnodi. **Gofynnodd y staff cymorth iddo pam yr oedd yn gweiddi, ond roedd yn ymddangos nad oedd yn sylweddoli ei fod yn gweiddi. Esboniodd ei fod yn rhwystredig ac yn ceisio cyfathrebu mewn ail iaith, a bod hynny'n anodd iddo.**

Mae canllawiau Llywodraeth Cymru yn awgrymu mai'r arfer gorau yw cynnig cymorth mewn sawl iaith trwy sicrhau gwasanaethau cyfieithu a dehongli. Gall sefydliadau fel Cyngor Ffoaduriaid Cymru gynnig cymorth ar gyfer deall negeseuon e-bost a llythyrau.

Trwy weithio mewn partneriaeth, gellir helpu i sicrhau bod timau'n cyfathrebu â phobl mewn modd sy'n gweithio iddyn nhw, gan ymdrin â gweithredoedd pobl gyda'r ddealltwriaeth angenrheidiol ar gyfer sefydlu dull sy'n ystyriol o drawma.



# TOM

Roedd Tom yn byw gyda'i fam ond cafodd ei hun yn ddigartref ar ôl i'w perthynas chwalu. Doedd ganddo unman arall i fynd felly dechreuodd gysgu yn ei gar.

Gwnaeth gais digartrefedd gyda'i gyngor lleol, ond daethpwyd â'r ddyletswydd tuag ato i ben oherwydd diffyg cyfathrebu.

Roedd wedi bod mewn cysylltiad â thîm allgymorth a oedd wedi cytuno i gwrdd ag ef yn y maes parcio lle'r oedd yn aros. C**afodd Tom ei symud ymlaen gan yr awdurdodau ac nid oedd yn gallu cysylltu â'r tîm allgymorth i roi gwybod iddynt. O ganlyniad, tynnwyd daethpwyd â'r ddyletswydd i'w helpu i ben oherwydd diffyg cyfathrebu.**

Daeth Tom i Shelter Cymru yn gofyn am adolygiad o'r penderfyniad. Esboniodd nad oedd y tîm allgymorth yn gallu dod o hyd iddo oherwydd ei fod wedi cael ei symud ymlaen o'r maes parcio lle'r oedd wedi bod yn aros.

Fel yn achos Tom, gall cyfathrebu gael ei ddylanwadu'n hawdd gan amgylchiadau, ac mae'r math hwn o broses ddilysu yn enghraifft o sut y gall proses anhyblyg olygu dod â'r ddyletswydd tuag at unigolyn i ben yn annheg.



Credit: Centre for Homelessness Impact / Jeff Hubbard

**"MAE BOD YN DDIGARTREF YN BROFIAD ANNYNOL IAWN, OND CEFAIS FY NGWNEUD I DEIMLO'N LLAI NA DYNOL GAN Y BOBL A DDYLAI FOD YN FY HELPU.**



Credit: Centre for Homelessness Impact / Jeff Hubbard

# CHARLOTTE

Roedd Charlotte yn defnyddio pod mewn llety dros nos brys. Mae ganddi hanes o broblemau iechyd meddwl difrifol ac roedd wedi treulio amser hir yn aros i gael ei rhoi mewn llety mwy sefydlog.

Dros y cyfnod a dreuliodd mewn llety brys, dirywiodd ei hiechyd meddwl ac aeth yn hunanladdol.

Adroddodd staff yn yr hostel lle'r oedd Charlotte yn aros ei bod wedi ysgrifennu nodyn hunanladdiad ar wal fewnol y pod yr oedd hi'n ei ddefnyddio ac, yn ddiweddarach, ei bod wedi mynd i adeilad yr adran dai leol gan fygwth rhoi ei hun ar dân a llosgi'r adeilad i lawr.

Cafodd Charlotte ei hatgyfeirio i Shelter Cymru ar ôl i'r awdurdod lleol ddod â'r ddyletswydd tuag ati i ben oherwydd ymddygiad bygythiol a difrod i eiddo.

**Roedd tîm yr awdurdod lleol yn teimlo y gallai'r nodyn hunanladdiad a ysgrifennodd Charlotte ar wal y pod gael ei ystyried yn ddifrod bwriadol, a gallai'r bygythiad a wnaed yn yr adran dai gael ei ystyried yn fygythiad uniongyrchol i staff.**

Pan ofynnwyd am yr effaith y gallai iechyd meddwl Charlotte fod wedi ei chael ar yr amgylchiadau hyn, dywedodd yr awdurdod lleol ei fod yn fodlon nad oedd unrhyw bryderon iechyd meddwl difrifol gan fod Charlotte yn derbyn meddyginiaeth ragnodedig ac nad oedd angen cymorth nyrs seiciatrig gymunedol arni.

Cefnogodd Shelter Cymru Charlotte i wneud cais digartrefedd newydd, ac yn y pen draw cafodd gynnig llety â chymorth.

Mae pob un o'r straeon hyn yn tynnu sylw at y ffaith bod y prawf ymddygiad annerbyniol yn ein deddfwriaeth digartrefedd bresennol yn gwneud dim mwy na grymuso dyfarniadau goddrychol sy'n tynnu cymorth hanfodol oddi wrth bobl ddigartref. Ym mhob un o'r enghreifftiau hyn o ddefnyddio'r prawf mewn bywyd go iawn, mae wedi cael ei ddefnyddio mewn ffordd sydd i'r gwrthwyneb i'r hyn y mae'n ei olygu i fod yn ystyriol o drawma.

Byddai'n well gan Shelter Cymru fod y prawf ymddygiad annerbyniol yn cael ei dynnu'n ôl yn ei gyfanrwydd, neu, o leiaf, ei ddiwygio i sicrhau mai dim ond pan fetho popeth arall y dylid dod â dyletswydd i ben. Dim ond os na all awdurdod lleol ddarparu gwasanaethau a sicrhau diogelwch staff y dylid dod â dyletswydd i ben.

Ni ellir caniatáu i ddyfarniad ar euogrwydd fod o fewn cylch gwaith awdurdodau lleol, yn enwedig os yw'r canlyniad yn golygu bod rhywun yn colli mynediad posibl at gymorth angenrheidiol i sicrhau neu i gynnal cartref – rhywbeth y credwn yn angerddol sy'n hawl ddynol. Yn rhy aml mae pobl yn cael eu hystyried yn ddim mwy nag ystadegau neu astudiaethau achos, ond mae bywydau pobl yn cael eu ffurfio gan y penderfyniadau y bydd gwasanaethau yn eu gwneud.

Mae'n rhaid i ni fod yn fwy parod i ddysgu gan bobl sydd wedi cael y profiadau hyn, ac i'r perwyl hwnnw, mae'r ddogfen hon yn cau gyda cherdd ddi-deitl gan Johnny Giles.

*Mae Johnny yn artist gair llafar o'r De a fe yw awdur "Chalk Outlines". Mae wedi cyrraedd rownd derfynol Slam Abertawe dair gwaith, ac mae'n arwain taith gerdded "Poetry, Protest and Place" Caerdydd fel rhan o brosiect Dinasoedd Anweledig Wallich. Mae ei farddoniaeth yn darlunio materion fel cyfiawnder cymdeithasol, iechyd meddwl a'i brofiadau ei hun o ddigartrefedd.*

**We need to be supported**
**Not outcast, not thwarted.**
**We need to feel as if we fit**
**Not a problem to be fixed**
**A corner cut, our value nixed.**
**We may be muddled, or a mix**
**Of emotions, traumatized,**
**The twist of life can play its tricks.**
**We all need somewhere nice to live**
**We aren't all take, take, take.**
**We give**
**As good as we get.**
**We appreciate it,**
**When we are helped not further hit**
**With labels until we further slip.**
**We need a hand that we can grip**
**To pull us up from out the pit.**

SHELTER
CYMRU